**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 2il Chwefror 2022, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones (o 6.15 pm), Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas (o 6.39 pm), Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams (o 6.15 pm).

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 69. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Chamberlain-Jones, a Ms. J. McAlpine a Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref.

## 70. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – IONAWR 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1299 | Shire Leasing | 337.33 | Prydles System Ffôn Avaya 21/22 4 o 4 |
| 1300 | BT | 512.34 | Rhentu llinell a chynnal a chadw a galwadau |
| 1304 | HSBC | 8.00 | Taliadau banc 17 Tachwedd 2021 - 16 Rhagfyr 2021 |
| 1140 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig Ffordd Wellington – Taliad 10 o 10 |
| 1168 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Taliad 9 o 12 2021/22 |
| 1309 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffi rheoli Rhagfyr 2021 |
| 1310 | CThEM | 2,794.69 | Didyniadau PAYE Rhagfyr 2021 |
| 1311 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,294.23 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Rhagfyr 2021 |
| 1312 | Cyflogau Staff | 7,362.97 | Cyflogau Staff Ionawr 2022 |
| | **Cyfanswm Taliadau** | 18,562.22 | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 23.57 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.61 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.61 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.61 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.61 |
| Rhyl BID | Ad-daliad Fframiau Ffenestri Nadolig | 23.50 |
| WPS Insurance | Ad-daliad Premiwm Yswiriant – Digwyddiad Coelcerth – Dim angen | 343.05 |
| | **Cyfanswm Incwm** | **392.56** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 71. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1325 | Office Depot (Viking Direct) | Papur llungopiwr | £159.11 |
| 1326 | Sage & Co | Gwasanaethau Cyflogres – Hydref - Rhagfyr 2021 | £93.00 |
| 1327 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | Ffi Rheoli ar gyfer Canolfan Gymunedol Tynewydd– Chwarter 4 | £2,625.00 |
| 1328 | BJS Solutions | Offer Sain-weledol ar gyfer Siambr y Cyngor | £9,412.80 |
| 1329 | BJS Solutions | Batri Gliniadur newydd | £95.60 |
| 1330 | BJS Solutions | Adnewyddu 5 trwydded gwrth-firws | £179.94 |
| ***Cyfanswm*** | | | **£12,565.45** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 72. PENODI ARCHWILIWR MEWNOL AC ARCHWILWYR ALLANOL AR GYFER 2022/23

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (dosbarthwyd ar wahan i'r rhaglen) ar benodi Archwiliwr Mewnol ac Allanol, JDH Business Services (Mewnol) a Swyddfa Archwilio Cymru (Allanol) ac atgoffodd yr aelodau bod angen iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes sydd ganddynt gyda'r naill neu'r llall.

***OENDERFYNWYD*** *cymeradwy penodi JDH Business Services a nodi penodiad Swyddfa Archwilio Cymru.*

## 73. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI – HYDREF-RHAGFYR 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn nodi bod cyfanswm y llogau a gafwyd o bum cyfrif y Cyngor Tref ar gyfer y cyfnod uchod yn £81.10.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad.*

## 74. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2022/23

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo strategaeth 2021/22.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r strategaeth fuddsoddi flynyddol ar gyfer 2021/22.*

## 75. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31 RHAGFYR 2021 AC AMCANESTYNAIDAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2021/22

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn amcan diffyg o £75,000 ar gyfer 2021/22 a oedd yn bennaf oherwydd penderfyniad blaenorol y Cyngor i ad-dalu £100,000 oddi ar y benthyciad SC2 ac i ail-strwythuro taliadau dros gyfnod o 20 mlynedd at y dyfodol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r gwariant manwl y rhagwelwyd y byddai'n cael ei achosi cyn diwedd y flwyddyn a nodi, unwaith y byddai'r sefyllfa ariannol derfynol yn hysbys, y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yn ymwneud â'r symudiad a argymhellwyd yng nghronfeydd enwebedig y Cyngor.

Cofnododd y Cadeirydd ei werthfawrogiad o waith y Swyddog Cyllid yn paratoi'r adroddiadau a'r datganiadau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**[Ymunodd yr aelodau canlynol yn ystod yr eitem ganlynol:
Y Cynghorwyr K.R. Jones, T. Thomas, a Miss C. Williams]**

## 76. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – MASNACHU AR Y STRYD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ddogfen ymgynghori (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a oedd wedi ei dwyn i sylw'r Cyngor gan y Cynghorydd Mellor a oedd yn gwasanaethu ar Bwyllgor y Cyngor Sir yn arolygu'r polisi masnachu ar y stryd. Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Mellor i annerch y cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd Mellor bod y polisi drafft yn cael ei arolygu, a bod y Cyngor Sir yn benodol yn gofyn am farn y Cyngor Tref mewn perthynas â'r strydoedd a restrwyd yn Atodiad A ac wedi eu nodi fel rhai â 'gwaharddiad rhannol'. Esboniodd y Cynghorydd Mellor nad oedd y Cyngor Sir yn ymwybodol pa ardaloedd penodol y strydoedd hynny a ddylid eu dosbarthu fel rhai wedi eu gwahardd neu lle caniateir masnachu ac roedd felly yn gofyn am farn y Cyngor Tref.

Teimlai'r aelodau y byddai'r adroddiad wedi bod yn well o gynnwys map yn dangos y strydoedd gwaharddedig. Dywedodd Clerc y Dref ei bod yn debygol bod Atodiad A yn atgynhyrchiad o atodlen a baraotwyd yn wreiddiol gan Gyngor Bwrdeistref Rhuddlan ac y byddai'r gorchymyn gwreiddiol wedi cynnwys map manwl ynghyd ag esboniad o ran pam roedd rhai strydoedd wedi eu diffinio fel rhai gyda chaniatâd neu wedi eu gwahardd. Dywedodd ymhellach y dylai'r dogfennau hyn fod ym meddaint y Cyngor Sir fel awdurdod olynol.

Teimlai'r aelodau bod yr adroddiad yn codi materion ynglŷn ag ail-gyflwyno marchnadoedd stryd i'r Rhyl a lle roedd masnachu ar y stryd i'w ganiatau, dylid bod yn ofalus osgoi stondinau yn gwerthu cynnyrdd a oedd ar gael eisoes ac mewn cystadleuaeth i fanwerthwyr parhaol agos. Ystyriwyd hefyd y dylid rheoli'n llym ddefnydd gan genedlaethau o fasnachwyr a dim ond caniatau hynny lle nad oedd yn achosi niwsans sŵn neu lygredd i fanwerthwyr parhaol a cherddwyr yn enwedig ar safleoedd yn agos at lle gwerthir bwyd.

Mynegwyd pryder ynglŷn â lefel y gofynion a bennir yn Atodiad D mewn perthynas ag addasrwydd personau i fod yn fasnachwyr stryd. Roedd nifer o aelodau yn hystyried bod y gofynion mewn perthynas ag archwiliadu DBS yn ormodol i'r pwrpas ac nad oedd yn cymryd digon o ystyriaeth o ddeddfwriaeth Adsefydlu Troseddwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Mellor y byddai'r polisi draft yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor Sir ar 2il Mawrth 2022.

Dywedodd aelod bod y Cyngor Sir eisiau cymeradwyo'r polisi cyn ethliadau mis Mai.

Cytunwyd bod yr aelodau hynny o'r Cyngor Tref a oedd hefyd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor hwnnw fel Cynghorwyr Sir yn cyfleu'r pryderon uchod yn y cyfarfod hwnnw ac adrodd ar y canlyniad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

***PENDERFYNWYD*** *yn unol â hynny.*

## 77. CANSLO CYFARFODYDD

Cyfeiriodd Clerc y Dref at gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cynllunio ar 4ydd Mai 2022 a gofynnodd am gyfarwyddyd yr Aelodau gan eu bod yn agos at yr Etholiadau Llywodraeth Leol.

***PENDERFYNWYD*** *canslo'r cyfarfodydd*.

## 78. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………